Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Map Trywydd Golwg Fyd-eang Medr

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Rhagair

Mae Cymru'n wlad â llawer iawn i fod yn falch ohono. Llawer iawn i'w rannu. Mae ein diwylliant bywiog a'n hunaniaeth genedlaethol gyfoethog yn ein gwneud yn genedl falch, ac yn un sy'n uchelgeisiol, fel y dylai fod, ynglŷn â datblygu cysylltiadau â'r byd ehangach. Mae hyn yn amlwg yn anad dim yn ein sector addysg drydyddol ac ymchwil, lle mae cydweithio, symudedd a chyfnewid rhyngwladol wedi dwyn manteision parhaus i ddysgwyr a chymunedau ledled Cymru am ddegawdau lawer.

Rydym ni yn Medr yn falch o hyrwyddo sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru sy'n edrych tuag i mewn a thuag at allan. Nid yn unig y mae ein darparwyr yn sefydliadau angori yn eu hardaloedd lleol hwy eu hunain, gan sicrhau bod gan ddysgwyr ledled Cymru fynediad at y cyfleoedd addysgol gorau un a chan gyfrannu at lesiant cyffredinol y bobl a'r lleoedd agosaf atynt, ond maent hefyd yn cyfrannu at fywydau pobl a phartneriaid mewn rhannau eraill o'r byd. Yn ei dro, daw hyn â manteision byd-eang cyffredin – gan hybu sgiliau, gwybodaeth ac arloesi sy'n cyfrannu at lesiant byd-eang ac sy'n gwella bywydau.

Mae'r Map Trywydd Golwg Fyd-eang hwn – a luniwyd trwy ymgysylltu helaeth â darparwyr, llunwyr polisi, rhanddeiliaid a phartneriaid ledled Cymru a'r tu hwnt – yn nodi cam arwyddocaol ymlaen yn ein huchelgais cyffredin i ddyfnhau ac ehangu cysylltiadau byd-eang Cymru, gan nodi fframwaith eglur, ymarferol ar gyfer cefnogi ymgysylltu rhyngwladol ar draws ehangder addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Trwy hybu symudedd, galluogi cydlafurio, a sicrhau bod manteision gweithgarwch rhyngwladol yn cael eu gwireddu gartref yn ogystal â thramor, mae'r map trywydd hwn yn adlewyrchu ein huchelgais i ategu system sy'n gydnerth, yn eangfrydig, ac sydd wedi'i chysylltu'n fyd-eang.

Mae'r camau gweithredu a nodir yn y map trywydd yn canolbwyntio ar ble y gall Medr gryfhau mynediad at fewnwelediad a data i oleuo prosesau penderfynu; gan roi cymorth i gydlafurio a meithrin partneriaethau; a gwella ein capasiti i fonitro, rhagweld, ac ymateb i ddatblygiadau byd-eang. Gyda'i gilydd, bydd y gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin partneriaethau cryfach, cynyddu cyfranogiad mewn cyfleoedd rhyngwladol, a gwella gwydnwch ar draws y sector.

Trwy ehangu gorwelion ar gyfer dysgwyr, gwella sgiliau a chyfleoedd ar gyfer staff, meithrin sefydliadau cryfach a mwy arloesol, bydd y map trywydd Golwg Fyd-eang yn dwyn gwerth economaidd, cymdeithasol a diwylliannol parhaus i Gymru.

Mae'r map trywydd hwn felly'n ddatganiad o fwriad ac yn ymrwymiad i weithredu. Mae'n adlewyrchu ein cred ni y gallwn, trwy gydweithio gyda'n partneriaid a'r sector ehangach, sicrhau bod y sector trydyddol yn parhau i chwarae ei ran yng ngallu Cymru i ffynnu fel cenedl sy'n ymgysylltu'n fyd-eang; Cymru sy'n agored, yn hyderus, ac wedi'i chysylltu â'r cyfleoedd sydd o'n blaenau – gartref a ledled y byd.

**James Owen**
**Prif Weithredwr**

# 1. Cyflwyniad

Yng Nghynllun Strategol Medr 2025-30, fe wnaethom bennu ein gwerthoedd sy’n cynnwys ‘Dysgu’, a grynhoir gan ein cred bod chwilfrydedd yn hybu arloesi ac yn helpu i ehangu ein gorwelion. Ond nid yw’r gwerth hwn, sef chwilfrydedd ac edrych tuag at allan, yn rhywbeth newydd i’r sector addysg drydyddol ac ymchwil. Yn hytrach, mae gan ddarparwyr Cymru hanes hir o feithrin cysylltiadau rhyngwladol, cefnogi cyfnewid rhyngwladol, a meithrin partneriaethau byd-eang.

Efallai ein bod yn gweld hyn yn fwyaf gwirioneddol yn y ffordd y mae dysgwyr ledled y byd yn gadael eu mamwledydd i astudio mewn prifysgolion mewn gwledydd eraill. Ac yn union fel y mae llawer o bobl o Gymru wedi dewis astudio mewn rhannau eraill o’r byd boed am wythnosau neu fisoedd neu hyd yn oed am flynyddoedd, mae Cymru hithau wedi croesawu dysgwyr o bob rhan o’r byd. Mae’r dysgwyr hyn wedi cyfoethogi ein campysau, wedi dod yn rhan o’n cymunedau, ac yn mynd â nid dim ond addysg Gymreig gyda hwy, ond dealltwriaeth am Gymru a gwerthfawrogiad ohoni. Ond mae dimensiwn rhyngwladol addysg drydyddol yn ehangach na symudedd dysgwyr. Gellir ei weld yn y ffyrdd y mae staff yn meithrin cysylltiadau â phobl a sefydliadau mewn rhannau eraill o’r byd, ac yn sut y mae ein darparwyr addysg yn ceisio cyfnewid syniadau a meithrin partneriaethau ledled y byd.

Mae’r gweithgareddau hyn yn dwyn budd uniongyrchol i ddysgwyr a staff trwy ehangu gorwelion, cryfhau galluoedd a helpu i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth newydd. Eto mae’r manteision yn cael eu teimlo ledled Cymru hefyd: yn y ffordd y mae dysgwyr rhyngwladol yn cyfrannu at eu cymunedau, ym manteision economaidd enillion allforio a phartneriaethau ymchwil, a thrwy gryfhau enw da Cymru a’i lle yn y byd yn yr hirdymor.

Y manteision hyn yw’r rheswm pam fod dyletswydd strategol Medr i hybu golwg fyd-eang, fel a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, o bwys. Mae’n darparu cyfeiriad eglur a diamwys i Medr hybu cyfleoedd ar gyfer symudedd dysgwyr a staff, cefnogi cydlafurio a phartneriaethau rhyngwladol, a dod o hyd i ffyrdd y gall manteision gweithgareddau golwg fyd-eang gael eu gwireddu er mwyn llesiant Cymru.

Diben y map trywydd hwn yw disgrifio’r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein cyfrifoldebau dan ein dyletswydd strategol i hybu golwg fyd-eang. Wrth wneud hynny, rydym hefyd wedi gorfod ystyried beth y mae golwg fyd-eang yn ei olygu ar draws ehangder y sector trydyddol. Rydym wedi ceisio adlewyrchu’r ehangder hwn yn y map trywydd. Mewn rhai achosion, mae trefniadau golwg fyd-eang yn hanesyddol neu wedi hen ennill eu plwyf, mewn eraill ceir darparwyr sydd efallai heb ymgysylltu rhyw lawer yn rhyngwladol cyn hyn ond y mae arnynt eisiau tyfu neu ehangu’r gwaith hwn. Mae datblygiad y map trywydd hwn wedi dod ar adeg pan fo mwy o ansicrwydd a newid yn amgylchedd y DU a’r amgylchedd byd-eang. Mae penderfyniad y DU i ymwneud â’r rhaglen Erasmus+ yn creu cyfleoedd i ddarparwyr, staff a dysgwyr Cymru... ond dim ond os ydym mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Ac, ar yr un pryd, mae’n creu ansicrwydd ynghylch yr hyn fydd yn digwydd i raglenni symudedd y mae darparwyr wedi bod yn dibynnu arnynt am nifer o flynyddoedd.

Rydym hefyd wedi gweld ansicrwydd o ganlyniad i newid yn newisiadau dysgwyr rhyngwladol. Mae niferoedd dysgwyr rhyngwladol mewn addysg uwch yn y DU wedi bod yn fwyfwy cyfnewidiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd anterth yng Nghymru o oddeutu 28,700 yn 2022/23 cyn dirywiad cyflym i oddeutu 21,600 yn 2024/25. I nifer o ddarparwyr, mae recriwtio rhyngwladol yn rhan hollbwysig o’u

cynaliadwyedd ariannol. Mae’r enghraifft hon yn crisialu rhai o’r risgiau yn y maes hwn, a rhai yr ydym wedi gorfod eu cadw mewn cof wrth i ni ddatblygu’r gwaith yma.

Mae’r cyd-destun hwn hefyd wedi peri i ddarparwyr nodi uchelgeisiau gwahanol neu newydd yn y gofod rhyngwladol. Trwy ein hymgysylltiad ni, rydym wedi clywed gan ddarparwyr addysg bellach ac uwch â diddordeb cynyddol mewn tyfu eu darpariaeth addysg dramor. Eisoes ym maes addysg uwch rydym wedi gweld niferoedd dysgwyr ar y mathau hyn o raglenni’n tyfu 21.4% mewn pum mlynedd. Mae Strategaeth Addysg Ryngwladol Llywodraeth y DU (2026) yn enwi twf addysg drawswladol fel un o’r ffactorau allweddol a fydd yn ei galluogi i gyrraedd ei thargedau mewnfuddsoddi. Mae gan Medr rôl o ran cefnogi twf cynaliadwy yn y maes hwn gan hefyd sicrhau bod ein gwaith o ran ansawdd a rheoleiddio’n cynnal enw da a safonau ansawdd Cymru.

Rydym wedi ceisio taro cydbwysedd: map trywydd uchelgeisiol sy’n disgrifio ac yn ehangu cyfleoedd ar draws holl sector addysg drydyddol Cymru, ond un sydd hefyd yn cydnabod yr heriau cymhleth y mae llawer o’n darparwyr yn ymdrin â hwy.

I’n helpu i ddod o hyd i’r cydbwysedd hwnnw, ac i fynd ati yn y ffordd orau i adnabod y camau gweithredu y dylem eu cymryd, rydym wedi datblygu’r map trywydd hwn trwy gydweithio’n agos gyda rhanddeiliaid a darparwyr ledled Cymru. Mae hyn wedi ein helpu i grisialu’r hyn y mae arnom eisiau ei gyflawni trwy’r gwaith, yn enwedig ein huchelgeisiau i alluogi:

- Mwy o ddarparwyr, gan gynnwys y rhai heb ryw lawer o brofiad os o gwbl, i ymgysylltu’n rhyngwladol
- Partneriaethau byd-eang cryf a chynaliadwy mewn addysg
- Gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ar draws y sector
- Mwy o gydnerthedd rhag siociau byd-eang
- Gwireddu manteision yr uchod ledled Cymru

Yr hyn a ganlyn yw’r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i roi cymorth i wireddu ein huchelgeisiau a chyflawni ein dyletswyddau strategol. Mae’n adlewyrchu’r gwaith y byddwn yn parhau i’w wneud ynghyd â’r gweithgareddau newydd neu estynedig a fydd yn mynd i’r afael â bylchau neu’n rhoi cymorth lle y mae ei angen fwyaf.

Yn hollbwysig, er bod y map trywydd hwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni, wrth wneud hynny byddwn yn cynnal ein ffocws ar sicrhau bod y manteision arbennig y gall golwg fyd-eang eu cynnig yn cael eu teimlo ledled Cymru: gan ddysgwyr a staff, gan ddarparwyr, a chan y cymunedau a wasanaethir gennym.

## 2. Ein dull: ffiniau ac egwyddorion

Nod Medr yw cefnogi ymgysylltu rhyngwladol trwy adeiladu ar ei gymorth cyfredol i olwg fyd-eang a chanolbwyntio ar gamau gweithredu sy’n mynd i’r afael â risgiau, yn pontio bylchau mewn darpariaeth, yn galluogi mwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan ddarparwyr a dysgwyr Cymru mewn gweithgarwch rhyngwladol, ac yn hybu datblygiad gwybodaeth ac arbenigedd.

Gall y pum darpariaeth ar wahân a amlinellir yn ein dyletswydd strategol gael eu distyllu'n rhesymol yn dri **amcan craidd** y bydd cymorth Medr ar gyfer golwg fyd-eang yn canolbwyntio arnynt:

1) **Hybu symudedd**
2) **Galluogi cydlafurio rhyngwladol**
3) **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru**

Mae Medr wedi ymgysylltu â rhwydwaith o randdeiliaid, arbenigwyr y sector, ymarferwyr, llunwyr polisi ac uwch arweinwyr ar draws y sector addysg drydyddol i gasglu eu safbwyntiau am sut y gallwn ymateb i'r heriau hyn, beth arall y mae ei angen yn y maes hwn a'r rôl a ddylai fod gan Medr i ddarparu datrysiadau yn eu tyb hwy.

Wrth benderfynu ble i ganolbwyntio ei weithgarwch, dilynodd Medr dair prif egwyddor:

1. **Ychwanegedd** – Gweithredu lle gall Medr ychwanegu gwerth heb ddyblygu darpariaeth bresennol
2. **Cymesuredd** – Sicrhau bod gweithgarwch yn briodol i rôl Medr fel cyllidwr a rheoleiddiwr
3. **Effaith ar y system** – Datblygu ymyriadau sy'n cydnabod amrywiaeth darpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru a cheisio gwireddu manteision ar draws y sector

Mae golwg fyd-eang yn cyffwrdd ar lawer o'r pethau y mae Medr yn eu gwneud fel mater o drefn, boed yn fonitro cynaliadwyedd ariannol, dod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo darparwyr i dyfu partneriaethau ymchwil rhyngwladol neu sicrhau bod ein dull o sicrhau ansawdd addysg yn cyd-fynd â normau rhyngwladol.

Nid yw'r map trywydd hwn wedi'i fwriadu i gyfyngu ar gyfanswm yr hyn y mae Medr yn ei wneud yn y gofod hwn na'i ddiffinio. Mae wedi'i fwriadu i adolygu, o safbwynt newydd, yr hyn y mae Medr eisoes yn ei wneud, ble allai'r bylchau fod, a sut y gallwn gynorthwyo'r sector i wneud mwy o'r pethau a fydd yn dwyn budd.

## 3. Y Map Trywydd

Mae ein map trywydd yn cynnwys tri maes thematig, a oleuwyd gan yr egwyddorion a nodir uchod. Ar draws y meysydd hyn, rydym yn amlygu ble y mae gweithgarwch presennol yn Medr yn cyfrannu at ein dyletswydd strategol i hybu golwg fyd-eang, a ble y gellid cynyddu'r gweithgarwch presennol hwnnw. Rydym hefyd yn nodi gweithgareddau newydd sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â bylchau y mae Medr mewn sefyllfa dda i'w cefnogi.

Er bod ein gweithgareddau presennol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar nifer gymharol gul o feysydd, ymhen hir a hwyr bydd y map trywydd hwn yn ein galluogi i gefnogi holl ehangder ein darparwyr wrth i ni weithio tuag at yr amcanion a nodir yn ein dyletswydd strategol.

## Thema 1: Darparu gwybodaeth a mewnwelediad

O ystyried yr ansicrwydd y mae’n rhaid i ddarparwyr ymgodymu ag ef wrth ddatblygu a chryfhau eu gweithgarwch golwg fyd-eang, mae gwybodaeth dda a mewnwelediad da yn hollbwysig i oleuo prosesau penderfynu.

### Cam Gweithredu: cynhyrchu a rhannu dadansoddiadau o ddata

NEWYDD/ESTYNEDIG

Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer dadansoddi, meysydd i’w harchwilio a bylchau mewn mewnwelediad ac yna’n rhannu gwybodaeth sy’n galluogi darparwyr i wneud penderfyniadau seiliedig-ar-ddata sy’n siapio eu hymgysylltiad rhyngwladol a’u gwaith cynllunio strategol.

### Cam Gweithredu: comisiynu mewnwelediad/ymchwil gan drydydd partïon

NEWYDD

Lle byddai o fudd i’r sector gael mewnwelediadau newydd neu bwrpasol, bydd Medr yn ymchwilio i’r potensial ar gyfer comisiynu’r adnoddau hyn.

## Thema 2: Galluogi cydlafurio

Mae hybu cyfleoedd i gydlafurio’n agwedd sylfaenol ar ein dyletswydd strategol. Trwy ein hymgysylltiad â darparwyr a rhanddeiliaid ehangach, daeth yn amlwg bod hwn yn faes cymhleth gyda nifer o lwybrau a chyllidwyr presennol i ddarparwyr gael mynediad atynt.

Fodd bynnag, fe wnaeth ein hymgysylltiad amlygu bylchau penodol mewn ymgysylltiad cynnar â phartneriaid rhyngwladol posibl. Gallai datgloi’r cyfleoedd hyn helpu i roi darparwyr mewn sefyllfa i dyfu a chryfhau partneriaethau. Mae’r thema hon yn adnabod ffyrdd y bydd Medr yn amcanu at fynd i’r afael â’r bylchau hynny.

### Cam Gweithredu: cefnogi rhaglen grantiau bychain

NEWYDD

I alluogi darparwyr i greu neu ddatblygu cysylltiadau newydd â phartneriaid rhyngwladol, bydd Medr yn cynnig cyllid grant i ddarparwyr ffurfioli perthnasoedd, adnabod meysydd sy’n flaenoriaeth gyffredin, a datblygu cynlluniau ar gyfer cydlafurio parhaus. Ni fyddai grantiau Medr yn dyblygu cyllid sydd ar gael trwy sefydliadau eraill ond yn hytrach byddent yn galluogi darparwyr i fanteisio ar gyfleoedd i gydlafurio pan nad oes opsiynau cyllido eraill ar gael. Er enghraifft, gallai arian gefnogi:

a) Cydlafurio Sefydliadol – i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol o bob math gan gynnwys rhannu arfer gorau, datblygu cwricwla a phrosiectau symudedd/cyfnewid ar gyfer myfyrwyr.

b) Presenoldeb mewn Rhwydweithiau/Cynadleddau – i roi cymorth i gynrychiolwyr o Gymru fod yn bresennol mewn digwyddiadau rhyngwladol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau â phartneriaid newydd.

c) Cysylltiadau Ymchwil – i gefnogi perthnasoedd sefydliadol sy'n dod i'r amlwg neu'n newydd, adnabod blaenoriaethau thematig, meysydd ffocws a ffynonellau cyllid cynaliadwy i gefnogi partneriaethau ymchwil ac arloesi rhyngwladol

### Cam Gweithredu: cefnogi cyfranogiad mewn ymweliadau a dirprwyaethau

NEWYDD

O dan y cam gweithredu hwn, bydd Medr yn cynorthwyo cynrychiolwyr o sector addysg drydyddol Cymru i ymgysylltu â dirprwyaethau a chenadaethau: y rhai sy'n ymweld â'r DU a'r rhai sy'n digwydd y tu allan i'r DU. Bydd Medr yn cydweithio'n agos gyda'i rwydweithiau yng Nghymru a'r tu allan i Gymru i adnabod cyfleoedd i ymgysylltu ac i annog ymwelwyr â'r DU i gynnwys Cymru yn eu teithiau. Bydd Medr hefyd yn cefnogi presenoldeb/ymgysylltiad o Gymru mewn cyfleoedd rhwydweithio rhyngwladol a gynhelir mewn rhannau eraill o'r DU.

### Cam Gweithredu: creu rhwydweithiau arbenigol Cymreig

NEWYDD

Bydd Medr yn cefnogi ac yn hwyluso rhwydweithiau a grwpiau traws-sector sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a rhannu arfer gorau mewn darpariaeth addysg ryngwladol. Bydd ffocws y rhwydweithiau hyn yn cael ei bennu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn y sector at ddiben ymdrin ag anghenion darparwyr, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i lenwi bylchau mewn cymorth cyfredol ac ymdrin â risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

### Cam Gweithredu: cynnal cymorth i bartneriaid

PRESENNOL

Bydd Medr yn parhau i roi cymorth i bartneriaid sy'n helpu i hybu ein nodau ymhellach gan gynnwys:

- Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB)
- Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN)
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW)
- Rôl Golygydd Cymru yn The Conversation
- Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF)

## Thema 3: Monitro a sganio'r gorwel

Bydd Medr yn neilltuo adnoddau ychwanegol ac yn ychwanegu capasiti i lywio a gwella ein gweithgareddau yn y gofod hwn, gyda hynny'n cael ei gydlynu'n bennaf gan rôl yr Uwch Reolwr, Golwg Fyd-eang.

**Cam Gweithredu: ymchwil ddesg a monitro polisi a datblygiadau mewn addysg drydyddol fyd-eang.**

NEWYDD

Bydd Medr yn monitro'r cyfleoedd, heriau a thueddiadau parhaus a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn y gofod addysg ryngwladol trwy ymchwil ddesg a sganio'r gorwel. Bydd ein *Huwch Reolwr ar gyfer Golwg Fyd-eang* hefyd yn gweithredu fel dolen gyswllt yn Medr, gan ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau rhwng timau y mae eu gwaith yn cyfrannu tuag at – neu yr effeithir arno gan – flaenoriaethau golwg fyd-eang.

Bydd y mewnwelediadau hyn yn sail i bennu strategaeth a blaenoriaethau mewnol Medr ar gyfer gweithgarwch golwg fyd-eang, gan gydnabod y gall newidiadau ac ansefydlogrwydd dramor effeithio'n uniongyrchol ar gyfrifoldebau ehangach Medr gan gynnwys monitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol darparwyr a'r cymorth a gynigir ar gyfer llesiant dysgwyr.

Lle y bo'n briodol, bydd mewnwelediad a diweddariadau'n cael eu rhannu gyda'n rhwydwaith o randdeiliaid hefyd i helpu darparwyr i ddatblygu eu blaenoriaethau yn y gofod hwn.

**Cam Gweithredu: meithrin a chryfhau perthnasoedd â rhanddeiliaid a llunwyr polisi.**

ESTYNEDIG

Bydd Medr yn cynnal ac yn ehangu ein hymgysylltiad â llunwyr polisi, rhwydweithiau, grwpiau ac unigolion allanol allweddol yng Nghymru, yn y DU a thramor gan amcanu at roi arweiniad i wneud penderfyniadau a sicrhau bod sector addysg drydyddol Cymru'n cael ei gynnwys a'i gynrychioli mewn polisi, rhaglenni, prosiectau a gweithgareddau rhyngwladol cyfredol ac sydd ar ddod.

**Cam Gweithredu: monitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol**

PRESENNOL

Mae Medr yn ymholi data ac yn gweithio gyda darparwyr i ddeall bygythiadau sy'n dod i'r amlwg. Yng nghyd-destun Golwg Fyd-eang, mae Medr yn cydweithio'n agos gyda darparwyr i ddeall partneriaethau sy'n dod i'r amlwg, trefniadau darpariaeth dramor, ac yn dadansoddi data recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i ddeall risgiau datblygol a beth allai eu heffaith fod.

**Cam Gweithredu: parhau i ddarparu goruchwyliaeth a chanllawiau rheoleiddiol â ffocws ar ansawdd ar gyfer addysg a ddarperir y tu allan i Gymru**

PRESENNOL

Mae dyletswydd ar Medr i fonitro a hybu gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, darparwyr sydd wedi'u cofrestru neu a gyllidir gan gynnwys darpariaeth a roddir y tu allan i Gymru.

## 4. Y Map Trywydd – yn gryno

Mae'r tablau canlynol yn dangos sut y mae'r camau gweithredu a ddiffinnir uchod yn croestorri â'r amcanion craidd a nodir yn y Ddeddf, gan bwysleisio ble y disgwylir i bob un gael yr effaith **fwyaf arwyddocaol**:

| | **Amcanion craidd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Hybu symudedd** | **Galluogi cydlafurio rhyngwladol** | **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru** |
| **Maes Thematig 1: Darparu gwybodaeth a mewnwelediad** | | | |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Cynhyrchu a rhannu dadansoddiadau o ddata | X | X | |
| **NEWYDD** Comisiynu mewnwelediad/ ymchwil gan drydydd partïon | | | X |

| | **Amcanion craidd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Hybu symudedd** | **Galluogi cydlafurio rhyngwladol** | **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru** |
| **Maes Thematig 2: Galluogi cydlafurio** | | | |
| **NEWYDD** Cefnogi Rhaglen Grantiau Bychain: | X | X | X |
| **NEWYDD** Cefnogi cyfranogiad mewn ymweliadau a dirprwyaethau | X | X | X |
| | | | |
| **NEWYDD** Creu rhwydweithiau o ddarparwyr/arbenigwyr Cymreig | X | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Addysg Uwch Cymru Brwsel | | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Rwydwaith Arloesi Cymru | | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Gymdeithas Ddysgedig Cymru | X | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Olygydd Cymru, The Conversation | | X | X |
| Rheoli Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol | X | X | X |

| | Amcanion craidd | | |
|---|---|---|---|
| | **Hybu symudedd** | **Galluogi cydlafurio rhyngwladol** | **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru** |
| **Maes Thematig 3: Monitro a sganio'r gorwel** | | | |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Ymchwil ddesg a monitro polisi a datblygiadau mewn addysg drydyddol fyd-eang | | | **X** |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Meithrin a chryfhau perthnasoedd â rhwydweithiau allweddol | | **X** | **X** |
| Cymorth ar ffurf cyllid i UUKI. | | **X** | **X** |
| Monitro ac ymateb i risgiau i gynaliadwyedd ariannol darparwyr sydd wedi'u gwreiddio mewn polisi a thueddiadau rhyngwladol | | | **X** |
| Monitro ac ymateb i risgiau i ansawdd darpariaeth a roddir yn rhyngwladol (Addysg Drawswladol) | | | **X** |

Gyda'i gilydd, bydd y camau gweithredu hyn yn galluogi Medr i gyflawni cyfrifoldebau ein dyletswydd strategol ac ehangu ymgysylltiad rhyngwladol ar draws y sector trydyddol trwy:

- Ddarparu rhagor o fewnwelediad a hwnnw'n fewnwelediad gwell i wella prosesau penderfynu strategol,
- Cynnig cymorth i bartneriaethau cyfnod cynnar i hwyluso rhagor o bartneriaethau a'r rheiny'n gryfach, a
- Chynyddu ymgysylltiad a chysylltedd â rhanddeiliaid allweddol i alluogi mwy o gyfranogiad a gwydnwch

Gan arwain at:

- Fwy o symudedd
- Mwy o gydlafurio, yn rhyngwladol ac yng Nghymru, a
- Mwy o fudd hirdymor i Gymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**